Department for Work & Pensions

Adran Gwaith a Phensiynau

# Cynhaliaeth Plant: Cyflymu Gorfodaeth

Ymgynghoriad Cyhoeddus

2 Hydref 2023

# Cynnwys


Rhestr Termau........................................................**Error! Bookmark not defined.**

Crynodeb gweithredol.................................................................................... 4

Cyflwyniad .................................................................................................... 4

Ynglŷn â’r ymgynghoriad yma…………………………………………………………5

Gwybodaeth gefndirol a manylion am y rheoliadau arfaethedig .............................. 6

Gorchmynion Atebolrwydd Gweinyddol .................................................................. 6

Cynigion .................................................................................................... 7

Apeliadau .................................................................................................... 8

Cynigion .................................................................................................... 8

Sut rydym yn ymgynghori ................................................................................ 9

Egwyddorion ymgynghori................................................................................ 9

Adborth ar y broses ymgynghori ..................................................................... 9

Rhyddid gwybodaeth ..................................................................................... 10

| Rhestr termau | |
|---|---|
| Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant (CMS) | Corff gweinyddol ar gyfer y cynlluniau cynhaliaeth plant 2012 |
| Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) | Corff gweinyddol ar gyfer y cynllun cynhaliaeth plant 1993 a 2003 |
| Gorchymyn Atebolrwydd | Cydnabyddiaeth gyfreithiol o ddyled pan na fydd rhiant yn talu eu hatebolrwydd cynhaliaeth plant lawn am gyfnod penodol o amser. |
| Rhiant sy’n talu cynhaliaeth | Y rhiant sydd heb brif ofal o ddydd i ddydd o’r plant sy’n gymwys am gynhaliaeth, ac sy’n gyfrifol am dalu cynhaliaeth plant. Gelwir hefyd yn rhiant dibreswyl. |
| Rhiant sy’n cael cynhaliaeth | Y rhiant gyda’r prif ofal o ddydd i ddydd o’r plant sy’n gymwys am gynhaliaeth, ac a ddylai gael cynhaliaeth plant. Gelwir hefyd yn rhiant â gofal. |
| Gorchymyn Didynnu o Enillion (DEO) | Dull i sicrhau taliadau cynhaliaeth plant a, neu, ôl-ddyledion yn uniongyrchol o gyflog rhiant sy'n talu cynhaliaeth. Mae'r cyflogwr yn didynnu'r swm yn uniongyrchol o'r cyflog a’i anfon at CMS. |
| Deddf Eisteddiad | Is-ddeddfwriaeth a wneir gan y Llys Sesiwn, goruchaf lys sifil yr Alban, i reoleiddio gweithrediadau llysoedd a thribiwnlysoedd yr Alban sy’n gwrando ar faterion sifil. |

# Crynodeb Gweithredol

1. Ar ôl i Ddeddf Cynnal Plant (Gorfodi) 2023 gael cydsyniad brenhinol ym mis Gorffennaf 2023, mae’r Llywodraeth yn cynnig dod â phwerau presennol i rym sy’n caniatáu i’r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant (CMS) wneud gorchymyn atebolrwydd gweinyddol yn erbyn person sydd wedi methu â thalu cynhaliaeth plant ac mae ganddynt ôl-ddyledion. Mae gorchymyn atebolrwydd yn gydnabyddiaeth gyfreithiol o'r ddyled ac mae'n ofynnol cyn y gall y CMS gymryd camau gorfodi penodol yn erbyn rhieni nad ydynt yn cydymffurfio i orfodi'r ôl-ddyledion hynny.
2. Bydd y gorchymyn atebolrwydd gweinyddol yn disodli'r gofyniad presennol i'r CMS wneud cais i'r llys am orchymyn atebolrwydd, sy'n broses hen ffasiwn a gall gymryd amser hir. Bydd cyflwyno proses weinyddol symlach yn galluogi'r CMS i gymryd camau cyflymach yn erbyn y rhieni hynny sy'n talu cynhaliaeth sy'n osgoi eu cyfrifoldebau yn weithredol ac a fydd yn cael arian i blant yn gyflymach.
3. Fel rhan o gyflwyno gorchmynion atebolrwydd gweinyddol, bydd rheoliadau yn nodi hawliau apelio pwysig a fydd gan rieni sy'n talu cynhaliaeth a sut i arfer yr hawliau hynny. Bydd hyn yn galluogi rhieni sy'n talu cynhaliaeth i herio gorchymyn atebolrwydd lle mae'n iawn iddynt wneud hynny.
4. Dim ond i rieni sy'n talu cynhaliaeth sy'n byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban y byddai'r pŵer hwn yn berthnasol.
5. Yn yr Alban, tra bod testun Deddfau Cynnal Plant 1991 a 1995 wedi'i gadw, mae'r system farnwrol wedi'i datganoli ac yn gweithredu'n wahanol i Gymru a Lloegr. Bydd ymgysylltu penodol yn digwydd gyda swyddogion yn Llywodraeth yr Alban a Chyngor Cyfiawnder Sifil yr Alban ar sut y bydd yr effeithiau ar yr Alban yn cael eu hadlewyrchu yn ein his-ddeddfwriaeth, yn ogystal ag ar eu Deddfau Eisteddiad (rheolau llys sy’n nodi arferion a gweithdrefnau’r llysoedd). O’r herwydd, bydd angen cychwyn a rheoleiddio’r darpariaethau yn ddiweddarach yn yr Alban.
6. Nod yr ymgynghoriad hwn yw deall barn y cyhoedd ar reoliadau arfaethedig sy'n ymwneud â gorchmynion atebolrwydd gweinyddol ac yn benodol, y weithdrefn ar gyfer ymdrin â'r broses apelio.

# Cyflwyniad

7. Cyflwynwyd y CMS yn 2012 i ddisodli'r Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) a'i nod yw annog rhieni i wneud eu trefniadau preifat eu hunain yn seiliedig ar deuluoedd ar gyfer cynhaliaeth plant heb gymorth gan y llywodraeth lle bynnag y bo modd. Ni all pob rhiant sydd wedi gwahanu wneud trefniant teuluol, ac mae'r

CMS yn gweinyddu cynllun statudol effeithlon ac effeithiol ar gyfer y rhieni hynny sydd ei angen.

8. Mae'r cyfrifiad cynhaliaeth plant yn seiliedig ar wybodaeth incwm a dderbynnir yn uniongyrchol gan Gyllid a Thollau EM ac fe'i hadolygir yn flynyddol. Mae’r CMS yn gweinyddu dau ‘fath o wasanaeth’: Talu’n Uniongyrchol a Chasglu a Thalu. Gyda Talu Uniongyrchol, mae'r CMS yn gwneud cyfrifiad cynhaliaeth, yn darparu amserlen dalu ac mae rhieni'n trefnu taliadau rhyngddynt eu hunain. Gyda Casglu a Thalu, mae'r CMS yn cyfrifo'r gynhaliaeth ac yn ei chasglu oddi wrth y Rhiant sy'n Talu cynhaliaeth ac yn ei thalu i'r Rhiant sy'n Cael cynhaliaeth. Rhaid i rieni dalu ffioedd i ddefnyddio Casglu a Thalu.

9. Gwyddom fod mwyafrif y Rhieni sy'n Talu cynhaliaeth eisiau gwneud y peth iawn a chefnogi'r plant nad ydynt yn byw gyda nhw mwyach. I'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny, gall y CMS orfodi taliadau trwy ddidynnu'n uniongyrchol o enillion, buddion ac o ystod o gyfrifon banc. I'r rhai sy'n osgoi cyflawni eu rhwymedigaethau i gefnogi eu plant, gall y CMS gymryd camau gorfodi cryfach a ddefnyddir fel dewis olaf. Mae gennym ystod o bwerau y gellir eu defnyddio i gael arian i blant, gan gynnwys defnyddio asiantau gorfodi (beilïaid), gorchmynion arwystlo yn erbyn eiddo, gorfodi gwerthu eiddo, ymrwymiad i garchar a gwaharddiad rhag dal trwydded yrru neu basbort y DU.

10. Fel rhan o'n hymrwymiad i wella'r CMS i sicrhau mwy o gynhaliaeth i blant cymwys, rydym yn adolygu ein pwerau gorfodi yn barhaus i'w gwneud mor effeithiol â phosibl wrth adennill ôl-ddyledion gan rieni nad ydynt yn talu.

11. Mae cymryd camau gorfodi cyn gynted â phosibl yn allweddol i adennill ôl-ddyledion yn llwyddiannus. Po fwyaf o ddyled sy'n cronni ar achos, y mwyaf anodd yw hi i'w chasglu. Mae'r CMS eisoes wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r broses, gan gyflymu camau gweithredu pan fydd taliadau'n torri i lawr am y tro cyntaf a thargedu camau gorfodi yn fwy effeithiol.

12. Ar hyn o bryd, rhaid i’r CMS wneud cais am orchymyn atebolrwydd i’r Llys Ynadon (yng Nghymru a Lloegr), neu Lys y Siryf (yn yr Alban) ac aros i’r cais gael ei ganiatáu cyn y gall gymryd mesurau gorfodi penodol i gasglu cynhaliaeth plant heb ei thalu. Gall gymryd hyd at 22 wythnos o'r adeg y gwneir y cais i pan ganiateir y gorchymyn atebolrwydd.

13. Mae'r Adran yn cyflwyno newidiadau deddfwriaethol i gyflymu'r broses orfodi ymhellach – cafodd Deddf Cynnal Plant (Gorfodi) 2023 gydsyniad brenhinol yn ddiweddar. Mae’r Ddeddf hon yn rhoi’r cyfle i ddisodli’r broses araf a hen ffasiwn yn y llys i gael gorchymyn atebolrwydd.

14. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn ar y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon ac a ydynt yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng buddiannau rhieni a phlant.

# Ynglŷn â’r ymgynghoriad yma

## At bwy mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu

15. Mae'r ymgynghoriad yn agored i sefydliadau yn y sector gwirfoddol a chymunedol, yn ogystal â chwsmeriaid CMS ac aelodau'r cyhoedd.

## Pwrpas yr ymgynghoriad

16. Pwrpas yr ymgynghoriad yw llywio rheoliadau arfaethedig y Llywodraeth i gefnogi cyflwyno gorchmynion atebolrwydd gweinyddol.

## Ystod yr ymgynghoriad

17. Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban

## Hyd yr ymgynghoriad

18. Mae'r cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 2 Hydref 2023 tan 24 Tachwedd 2023.

## Sut i ymateb i'r ymgynghoriad yma

Anfonwch eich ymateb i'r ymgynghoriad i:

E-bost: cm.consultation@dwp.gov.uk <mailto:cm.consultation@dwp.gov.uk>

neu

DWP Consultation Coordinator
Second Floor

Caxton House

Tothill Street

London

SW1H 9NA

# Gwybodaeth gefndirol a manylion am y rheoliadau arfaethedig

## Gorchmynion Atebolrwydd Gweinyddol

19. Yn gyffredinol, lle bydd rhiant sy'n talu cynhaliaeth wedi methu taliadau cynhaliaeth plant, mae'r CMS yn ceisio adennill yr ôl-ddyledion trwy Orchymyn Didynnu o Enillion neu drwy ddidyniadau yn uniongyrchol o'u cyfrifon banc. Lle nad yw hyn wedi bod yn effeithiol, mae rhaid i'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant wneud cais i'r Llys Ynadon (yng Nghymru a Lloegr), neu Lys y Siryf (yn Yr Alban) am orchymyn atebolrwydd cyn iddynt allu cymryd rhai camau gorfodi i gasglu cynhaliaeth plant heb ei thalu.

20. Mae'r Ddeddf Cynnal Plant (Gorfodi) 2023 wedi diwygio pwerau presennol na ddechreuwyd yn adran 25 o'r Ddeddf Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill 2008 sy'n mewnosod adrannau newydd 32M a 32N i'r Ddeddf Cynnal Plant 1991. Bydd yr adrannau yna 32M a 32N yn darparu'r pwerau am orchmynion atebolrwydd gweinyddol. Byddant yn caniatáu i'r CMS wneud gorchymyn atebolrwydd gweinyddol yn erbyn y person sydd wedi methu talu cynhaliaeth plant ac mae ganddynt ôl-ddyledion. Bydd hyn

yn caniatáu i'r CMS symud ymlaen yn gyflym yn erbyn rhieni sydd heb gwrdd â'u cyfrifoldebau i dalu cynhaliaeth plant.

21. Cyn i orchymyn atebolrwydd gweinyddol gael ei ystyried, byddwn yn sicrhau, lle'n addas, bod y CMS wedi disbyddu opsiynau arall i adennill yr ôl-ddyledion, naill yn uniongyrchol o enillion y rhiant sy'n talu cynhaliaeth drwy Orchymyn Didynnu o Enillion neu'n uniongyrchol o amrediad o gyfrifon banc yn cynnwys rhai cyfrifon busnes. Bydd hyn yn sicrhau bod gorchymyn atebolrwydd gweinyddol yn cael ei wneud pan mae didyniad yn uniongyrchol o enillion y rhiant sy'n talu cynhaliaeth wedi bod yn aflwyddiannus neu'n amhriodol yn unig, fel lle mae'r rhiant sy'n talu cynhaliaeth yn hunangyflogedig neu'n cefnogi eu hunain trwy fframwaith enillion cymhleth.

22. Ar hyn o bryd, cyn gwneud cais i'r llysoedd am orchymyn atebolrwydd, mae'n rhaid i'r CMS roi rhybudd o leiaf 7 diwrnod o flaen llaw i'r rhiant sy'n talu cynhaliaeth o'u bwriad i wneud. Os bydd y rhiant yn byw dramor, mae cyfnod hysbysiad o 28 diwrnod o leiaf. Mae'r broses yma wedi bod mewn grym am flynyddoedd ac wedi bod yn llwyddiannus i sicrhau bod rhieni sy'n talu yn cael rhybudd o'r camau arfaethedig cyn i'r cais cael eu gwneud.

## Cynigion

23. Rydym yn cynnig y bydd y rheoliadau newydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMS roi'r un cyfnod rhybudd o 7 neu 28 diwrnod i riant sy'n talu cynhaliaeth cyn gwneud gorchymyn atebolrwydd gweinyddol. Bydd yr hysbysiad hwn o fwriad i wneud gorchymyn yn rhoi manylion swm y gynhaliaeth plant sydd heb ei thalu, er mwyn caniatáu amser i'r rhiant sy'n talu cynhaliaeth gysylltu â'r CMS a gwneud taliad neu godi anghydfod yn erbyn balans yr ôl-ddyledion cyn i orchymyn atebolrwydd ddod i rym.
24. Pan fo rhiant sy'n talu cynhaliaeth yn talu holl swm yr ôl-ddyledion o fewn y cyfnod o 7 neu 28 diwrnod, cynigir na fydd y gorchymyn atebolrwydd gweinyddol yn dod i rym.
25. Unwaith y bydd gorchymyn atebolrwydd gweinyddol wedi'i wneud, efallai y bydd sefyllfaoedd lle gellir rhyddhau'r gorchymyn. Cynigir y bydd y rheoliadau'n caniatáu i orchymyn atebolrwydd gweinyddol gael ei ryddhau pan fo'r cyfrifiad cynhaliaeth y mae'r gorchymyn yn seiliedig arno (swm yr ôl-ddyledion) wedi newid ers i'r gorchymyn gael ei wneud.
26. Rydym hefyd yn cynnig, os gwneir apêl yn erbyn y cyfrifiad cynhaliaeth i'r tribiwnlys haen gyntaf am gyfnod a gwmpesir gan orchymyn atebolrwydd gweinyddol, y gellir rhyddhau'r gorchymyn. Mae hyn yn atal gorchymyn rhag cael ei gadw yn ei le yn erbyn rhiant sy'n talu cynhaliaeth am gyfnod o gynhaliaeth plant sy'n destun dadl. Ni fydd rhyddhau'r gorchymyn yn effeithio ar hawliau'r rhieni sy'n talu cynhaliaeth i barhau â'u hapêl yn erbyn y cyfrifiad cynhaliaeth ac ni fydd yn atal unrhyw orchymyn yn y dyfodol rhag cael ei wneud ar ôl i'r anghydfod gael ei ddatrys.

**<u>Eich barn</u>**

Cwestiwn 1. Beth yw eich barn ar y cynigion ar gyfer rhoi cyfnod rhybudd o o leiaf 7 diwrnod (28 diwrnod os yw dramor) i riant cyn gwneud gorchymyn atebolrwydd, pan na fydd y gorchymyn atebolrwydd yn dod i rym os caiff ei dalu?

Cwestiwn 2. Beth yw eich barn am y cynnig i ryddhau gorchymyn atebolrwydd o dan yr amgylchiadau a nodir uchod?

Cwestiwn 3. Oes gennych unrhyw sylwadau neu farn am amgylchiadau eraill lle gellir rhyddhau gorchymyn atebolrwydd?

Cwestiwn 4. Yn eich barn chi, pa ganlyniadau anfwriadol, os o gwbl, a all fod o ganlyniad i unrhyw un o gynigion y gorchymyn atebolrwydd gweinyddol?

Cwestiwn 5. Ydych yn meddwl y bydd y cynigion yn caniatáu i'r CMS symud yn gyflym i gael arian i blant pan fo rhieni'n methu â bodloni eu rhwymedigaethau i dalu cynhaliaeth plant?

# Apeliadau

27. Mae'n bwysig sicrhau bod mecanweithiau cadarn yn eu lle i alluogi rhiant sy'n talu cynhaliaeth i apelio yn erbyn gwneud gorchymyn atebolrwydd gweinyddol fel y gallant herio'r penderfyniad hwn lle bo'n briodol.

28. Pan roddir gorchymyn atebolrwydd o dan y trefniadau presennol, bydd y llys yn ystyried a yw'r ddyled dan sylw wedi dod yn daladwy ac a yw heb ei thalu. Nid yw awdurdodaeth y llys yn cynnwys ystyriaeth o’r cyfrifiad CMS y mae’r ddyled yn seiliedig arno, gan fod apeliadau yn erbyn y cyfrifiad cynhaliaeth yn cael eu gwneud ar wahân i’r tribiwnlys haen gyntaf.

## Cynigion

29. Rydym yn cynnig y bydd y rheoliadau ar gyfer gorchmynion atebolrwydd gweinyddol yn nodi hawl y rhiant sy’n talu cynhaliaeth i apelio i’r llys yn erbyn y penderfyniad i wneud y gorchymyn a’r cyfnod ar gyfer arfer yr hawl i apelio.

30. Rydym o’r farn y dylai apeliadau yn erbyn gorchmynion atebolrwydd gweinyddol adlewyrchu’r hawliau apelio sydd eisoes ar gael i rieni sy’n talu cynhaliaeth yn erbyn mesurau gorfodi cynhaliaeth plant eraill, megis y rhai sy’n caniatáu ar gyfer didyniadau cynhaliaeth plant yn uniongyrchol o gyfrif banc rhiant. Mae'r mathau hyn o apeliadau wedi gweithredu'n llwyddiannus ers blynyddoedd lawer ac yn darparu proses deg, annibynnol ar gyfer codi apêl.

31. I roi enghraifft, gellir gwneud apeliadau yn erbyn didyniadau’n uniongyrchol o gyfrif banc rhiant sy’n talu cynhaliaeth i’r Llys Teulu (yng Nghymru a Lloegr) neu Lys y Siryf (yn yr Alban) o fewn 21 diwrnod o ddyddiad gwneud y gorchymyn. Gwneir yr apeliadau hyn yn uniongyrchol i'r llys trwy lenwi'r ffurflen gais llys perthnasol sydd ar gael gan y llys ac ar-lein.

32. Cynigiwn felly y dylai'r rheoliadau hefyd ganiatáu hawl i apelio i'r Llys Teulu (yng Nghymru a Lloegr) neu Lys y Siryf (yn yr Alban) o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad y gwneir gorchymyn atebolrwydd gweinyddol. Yn yr un modd ag apeliadau yn erbyn didyniadau’n uniongyrchol o gyfrif banc rhiant sy’n talu cynhaliaeth, bydd

hyn yn golygu y gellir gwneud apeliadau'n uniongyrchol i'r llys hefyd heb fod angen cytundeb y CMS ar riant.

33. Gan nad yw awdurdodaeth y llys apêl yn cynnwys ystyriaeth o'r cyfrifiad CMS y seiliwyd y ddyled arno, rydym o'r farn y gellir nodi unrhyw seiliau mwy manwl dros apelio yng ngweithdrefnau llys y llys perthnasol. Cynigiwn felly beidio â gosod unrhyw gyfyngiadau ar y seiliau dros apelio mewn rheoliadau cynhaliaeth plant, ac eithrio caniatáu apêl yn erbyn gwneud gorchymyn atebolrwydd gweinyddol. Byddai hyn yn cynnal cysondeb ag apeliadau yn erbyn didyniadau'n uniongyrchol o gyfrif banc rhiant sy'n talu cynhaliaeth.

34. Mae'r pwerau sy'n cael eu dwyn i rym hefyd yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â phwerau'r llys. Fodd bynnag, rydym am osgoi gwneud rheoliadau sy'n gosod unrhyw gyfyngiad afresymol ar y llysoedd. Felly, rydym yn cynnig y bydd y rheoliadau'n cadarnhau y gall y llys ganslo'r gorchymyn gweinyddol lle mae'n ei chael hi'n briodol gwneud hynny.

**Eich barn**

Cwestiwn 6. Beth yw eich barn ar ein cynlluniau i ganiatáu hawl i apelio i'r Llys Teulu (yng Nghymru a Lloegr) neu Llys y Siryf (yn yr Alban) o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad y gwneir gorchymyn atebolrwydd gweinyddol?

Cwestiwn 7. Oes gennych unrhyw sylwadau os yw'r cynigion yn darparu digon o amddiffyniadau i riant sy'n talu cynhaliaeth er mwyn apelio yn erbyn y penderfyniad i wneud gorchymyn atebolrwydd gweinyddol?

Cwestiwn 8. Oes gennych unrhyw sylwadau ar ba mor rhesymol yw'r prosesau apêl arfaethedig?

### Ymateb y Llywodraeth

35. Byddwn yn anelu at gyhoeddi ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad ar wefan Gov.Uk. Lle mae ymgynghori yn gysylltiedig ag offeryn statudol dylid cyhoeddi ymatebion cyn neu ar yr un pryd ag y gosodir yr offeryn.
36. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r ymatebion.

# Sut rydym yn ymgynghori

## Egwyddorion ymgynghori

37. Mae'r ymgynghoriad yma yn cael ei gynnal yn unol ag egwyddorion ymgynghori diwygiedig Swyddfa'r Cabinet a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016. Mae'r egwyddorion yma yn rhoi canllawiau clir i adrannau'r llywodraeth ar gynnal ymgynghoriadau.

## Adborth ar y broses ymgynghori

38. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth ar ba mor dda yr ydym yn ymgynghori. Os bydd gennych unrhyw sylwadau am y broses ymgynghori (yn hytrach na

sylwadau am y materion sy'n destun yr ymgynghoriad), gan gynnwys os ydych yn teimlo nad yw'r ymgynghoriad yn cadw at werthoedd a nodir yn yr egwyddorion ymgynghori neu os gellir gwella'r broses, dylech eu hanfon at:

DWP Consultation Coordinator
Second Floor

Caxton House

Tothill Street

London

SW1H 9NA

E-bost: caxtonhouse.legislation@dwp.gsi.gov.uk <mailto:CAXTONHOUSE.LEGISLATION@DWP.GSI.GOV.UK>

# Rhyddid gwybodaeth

39. Efallai bydd angen i'r wybodaeth rydych yn ei hanfon atom gael ei throsglwyddo i gydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau a'i chyhoeddi mewn crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd a'i chyfeirio ati yn yr adroddiad ymgynghori a gyhoeddir.
40. Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gynhwysir yn eich ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn destun cyhoeddi neu ei ddatgelu os gwneir cais am hynny o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Trwy ddarparu gwybodaeth bersonol at ddibenion yr ymgynghoriad cyhoeddus, deallir eich bod yn cydsynio i'w ddatgeliad a'i chyhoeddiad. Os nad hyn yw'r achos, dylech gyfyngu unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir, neu ei ddileu yn gyfan gwbl. Os ydych am i'r wybodaeth yn eich ymateb i'r ymgynghoriad gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech esbonio pam fel rhan o'ch ymateb, er na allwn warantu gwneud hyn.
41. I gael gwybod mwy am egwyddorion cyffredinol Rhyddid Gwybodaeth a sut caiff ei chymhwyso o fewn DWP, cysylltwch gyda'r Tîm Rhyddid Gwybodaeth Ganolig.

    E-bost: freedom-of-information-request@dwp.gsi.gov.uk <mailto:freedom-of-information-request@dwp.gsi.gov.uk>

42. Ni all y Tîm Rhyddid Gwybodaeth (FoI) Ganolig gynghori ar ymarferion ymgynghori penodol, dim ond ar faterion Rhyddid Gwybodaeth. I gael mwy o wybodaeth darllenwch y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.